PWYLLGORAU GWEITHREDOL A CHANOLOG

ADRODDIAD MONITRO YMWELIADAU

PWNC:	**GWEITHGARWCH YMWELD**
ADRODDIAD:	**SWYDDOG YMGYSYLLTU Â CHLEIFION A'R CYHOEDD/MONITRO A CHRAFFU**
STATWS:	**PAPUR GWYBODAETH**
CYSWLLT:	**SARA NEWNES**
DYDDIAD:	**EBRILL 2019**

DIBEN

Hysbysu Pwyllgorau am weithgarwch ymweld y CIC ac ymatebion y Bwrdd Iechyd yn dilyn ymweliadau a gynhaliwyd rhwng mis Ionawr 2019 a mis Mawrth 2019.

CEFNDIR

Cynhaliwyd ymweliadau ag adrannau cleifion allanol ar gyfer apwyntiadau trawma ac orthopedig, ysbytai cymunedol a wardiau acíwt cyffredinol fel rhan o gynllun blynyddol y CIC.

	Tudalen
Ymweliadau o'r chwarter blaenorol wedi'u diweddaru ag ymateb y Bwrdd Iechyd	2
Ymweliadau a gynhaliwyd rhwng mis Ionawr 2019 a mis Mawrth 2019	16

Ymweliadau o'r chwarter blaenorol wedi'u diweddaru ag ymateb y Bwrdd Iechyd

Ymweliad	Ysbyty Ystrad Fawr – 3.1 Rhisga	**Dyddiad:**	18/9/2018

- Nid oedd dau o'r pedwar lifft sydd ar gael yn gweithio'n iawn.

Ymateb y Bwrdd Iechyd:

- Yr adran Gwaith ac Ystadau i ymgysylltu â'r ward ynglŷn ag amserlenni ar gyfer atgyweiriadau a sicrhau bod hysbysiadau wedi'u harddangos i roi gwybod i gleifion/ymwelwyr.

Y ward:

- Roedd rhai posteri ar y waliau yn uchel iawn ac mae'n bosibl nad oedd yn hawdd i gleifion/ymwelwyr mewn cadeiriau olwyn eu gweld.
- Nid oedd pob un o'r cleifion wedi cael gwybodaeth am y ward, neu nid oeddent yn cofio cael y wybodaeth.
- Roedd goleuadau wedi'u diffodd mewn rhai ardaloedd o'r ward a allai achosi perygl.
- Nodwyd bod ffaniau heb eu plygio i mewn yn y coridorau.
- Roedd cortynnau tynnu mewn argyfwng wedi'u clymu mewn dwy ystafell ymolchi.
- Roedd ystafell storio wedi cael ei gadael ar agor a heb unrhyw un yn ei goruchwylio.
- Nid oedd cleifion bob amser yn gwybod pa gyfleusterau/gweithgareddau oedd ar gael ar y ward.

Ymateb y Bwrdd Iechyd:

- Mae'r hysbysfyrddau wedi cael eu hadolygu. Ni ellir gostwng hysbysiadau oherwydd y canllawiau rhwng y ciwbiclau.
- Bydd pecyn croeso/taflen groeso yn cael ei lunio/ei llunio. Bydd bwrdd croeso yn y fynedfa yn cael ei ddatblygu. Bydd y ward yn ystyried opsiynau eraill ar gyfer cyfathrebu â chleifion a sicrhau eu bod wedi'u teilwra i anghenion unigol y claf.
- Bydd yr arweinwyr yn sicrhau bod goleuadau yn ddigonol ac yn rhoi gwybod am unrhyw ddiffygion ar unwaith wrth gerdded o amgylch y ward yn ddyddiol.
- Bydd yr holl offer yn cael eu storio'n briodol. Bydd yr arweinwyr yn cerdded o amgylch y ward i dynnu sylw at unrhyw broblemau gan gynnwys problemau amgylcheddol.
- Cortynnau tynnu i'w datod ar unwaith. Arweinwyr i barhau i

gerdded o amgylch y ward i dynnu sylw at unrhyw broblemau gan gynnwys problemau amgylcheddol. Sicrhau y rhoddir gwybod am unrhyw broblemau gyda chortynnau tynnu neu glychau galw.

- Staff i sicrhau bod pob ardal nad yw'n ardal i gleifion ar gau. Arweinwyr i gerdded o amgylch y ward i dynnu sylw at unrhyw broblemau.
- Rhoddodd y Bwrdd Iechyd wybodaeth am y cyfleusterau a'r gweithgareddau sydd ar gael ar y ward. Bydd taflenni ward yn cael eu llunio a chaiff y cleifion eu hysbysu a'u hannog i gymryd rhan.

Ardal i gleifion:

Dim argymhellion.

Aelodau o staff:

- Nid oedd pob aelod o staff yn gwisgo bathodyn enw amlwg.
- Roedd rhai cleifion yn teimlo nad oedd digon o staff i ddiwallu anghenion y cleifion.

Ymateb y Bwrdd Iechyd:

- Atgoffwyd pob aelod o staff i wisgo bathodyn enw. Gwneir ceisiadau amserol am fathodynnau newydd.
- Rhoddodd y Bwrdd Iechyd grynodeb o'r lefelau staffio sydd ar gael ar gyfer y ward.

Cysur a hylendid:

- Nid oedd rhai cleifion yn teimlo bod eu hanghenion hylendid yn cael eu diwallu.

Ymateb y Bwrdd Iechyd:

- Mae'r cleifion bellach yn cael cynnig golchi dwylo neu weips dwylo cyn prydau bwyd. Mae'r staff yn sicrhau bod cynlluniau gofal perthnasol ar waith gan gleifion y mae angen cymorth hylendid personol arnynt. Staff i sicrhau y cynigir bath/cawod i'r holl gleifion.

Dillad gwely:

Dim argymhellion.

Ardaloedd yr Ymwelwyd â Nhw, Statws yr Ymateb a'r Ymateb a Gafwyd

Darparu prydau:

- Nid oedd pob claf yn gwybod bod byrbrydau ar gael.

Ymateb y Bwrdd Iechyd:

- Bydd nyrsys sy'n helpu adeg prydau bwyd yn sicrhau bod y cleifion yn gwybod bod byrbrydau ar gael. Bydd y staff yn gofyn i'r cleifion yn rheolaidd a oes angen unrhyw fyrbrydau bwyd neu ddiod arnynt.

Ardaloedd yr Ymwelwyd â Nhw, Statws yr Ymateb a'r Ymateb a Gafwyd

Ymweliad	Ysbyty Aneurin Bevan – Tyleri	**Dyddiad:**	20/9/2018

Y ward:

- Nid oedd rhai cleifion wedi cael taflen wybodaeth.
- Nid oedd un o'r ystafelloedd ymolchi cymunedol yn gweithio ar ddiwrnod yr ymweliad.
- Nid oedd pob claf yn ymwybodol o'r cyfleusterau a'r gweithgareddau oedd ar gael iddynt ar y ward.

Ymateb y Bwrdd Iechyd:

- Caiff llyfryn wedi'i lamineiddio ei ddarparu ar gyfer pob ystafell. Atgoffwyd y staff i sicrhau bod y rhain yn weladwy i gleifion/perthnasau wrth iddynt gael eu derbyn i'r ward.
- Mae'r ystafell ymolchi bellach yn gweithio.
- Rhoddodd y Bwrdd Iechyd fanylion ynglŷn â'r cyfleusterau a'r gweithgareddau sydd ar gael ar y ward. Caiff y cleifion eu hannog i gymryd rhan mewn gweithgareddau.

Ardal i gleifion:

Dim argymhellion.

Aelodau o staff:

- Nid oedd pob aelod o'r staff yn cyflwyno'i hun wrth roi gofal neu driniaeth i gleifion.

Ymateb y Bwrdd Iechyd:

- Atgoffwyd y staff am bwysigrwydd cyflwyno eu hunain.

Cysur a hylendid:

- Nid oedd pob claf yn teimlo y gallai ddefnyddio cyfleusterau hylendid personol mor aml ag yr hoffai.

Ymateb y Bwrdd Iechyd:

- Cynigir cymorth i gleifion gyda gofal personol yn y bore. Gall cleifion ddefnyddio'r gawod/bath ar unrhyw adeg o'r dydd. Anogir cleifion ailalluogi i ddod yn annibynnol.

Dillad gwely:

Dim argymhellion.

Ardaloedd yr Ymwelwyd â Nhw, Statws yr Ymateb a'r Ymateb a Gafwyd

Darparu prydau:

- Ni roddwyd cymorth i rai cleifion i fwyta eu pryd ac nid oedd system nodi hambyrddau ar waith.

Ymateb y Bwrdd Iechyd:

- Ar ddiwrnod yr ymweliad roedd nifer anarferol o fawr o gleifion yr oedd angen cymorth arnynt ar adeg prydau bwyd. Mae'r ward wedi cyflwyno strategaeth i sicrhau bod cymorth ar gael os oes angen.

Ardaloedd yr Ymwelwyd â Nhw, Statws yr Ymateb a'r Ymateb a Gafwyd

Ymweliad	Ysbyty Brenhinol Gwent – C4 Dwyrain	**Dyddiad:**	26/9/2018

Yn ystod yr ymweliad, roedd Ward C4 Dwyrain wedi'i lleoli ar B3 dros dro.

Y ward:

- Roedd claf yr oedd angen cyfathrebu dieiriau arno drwy ei ofalwr, a oedd yn cael bod ar y ward rhwng 8:30am a 3:30pm. Ni roddwyd unrhyw wybodaeth am y dull cyfathrebu y tu allan i'r amseroedd hyn.
- Nid oedd rhai cleifion yn ymwybodol o'r cyfleusterau ar y ward i'w hatal rhag diflasu a theimlo'n ynysig.

Ymateb y Bwrdd Iechyd:

- Mae gan y ward fwrdd darluniau y gall cleifion dieiriau ei ddefnydio ac mae pen a phapur ar gael hefyd. Gellir hefyd gyfeirio cleifion at y timau Lleferydd ac Iaith sydd ag iPads y gall cleifion eu defnyddio.
- Rhoddodd y Bwrdd Iechyd fanylion ynglŷn â pha gyfleusterau sydd ar gael ar y ward. Dylai staff y ward sicrhau bod y cleifion yn ymwybodol o weithgareddau'r ward ac yn cael cymorth i gymryd rhan ynddynt. Dylai'r cleifion gael gwybod am ddeunyddiau darllen a chwaraewyr DVD a'u hannog i ddod â'u heitemau eu hunain i'w defnyddio.

Ardal i gleifion:

Dim argymhellion.

Aelodau o staff:

- Nid oedd rhai aelodau o'r staff yn gwisgo bathodynnau enw newydd ar ôl rhoi gofal i gleifion.

Ymateb y Bwrdd Iechyd:

- Bydd Prif Nyrs y Ward yn sicrhau bod pob aelod o staff yn gwisgo bathodyn enw newydd ar ôl rhoi gofal i gleifion, a chaiff cais amserol ei wneud am unrhyw fathodynnau enw newydd sydd eu hangen.

Cysur a hylendid:

- Dywedodd un claf ei fod yn mynd yn oer ac yn anghyfforddus gyda'r nos am nad oedd digon o flancedi a gobenyddion ganddo.

Ardaloedd yr Ymwelwyd â Nhw, Statws yr Ymateb a'r Ymateb a Gafwyd

Ymateb y Bwrdd Iechyd:

- Bydd rheolwr y ward yn sicrhau bod gan y ward ddigon o obenyddion a blancedi er mwyn galluogi cleifion i fod yn gyfforddus yn ystod eu hamser ar y ward.

Dillad gwely:

Dim argymhellion.

Darparu prydau:

- Nid oedd pob claf yn cael ei annog i ddefnyddio cyfleusterau hylendid dwylo cyn bwyta.
- Roedd un claf yn teimlo y dylid newid ei jwg ddŵr fwy na dwywaith y dydd.

Ymateb y Bwrdd Iechyd:

- Caiff y cleifion eu hannog a'u helpu i ddefnyddio cyfleusterau golchi dwylo neu darperir weips dwylo iddynt cyn bwyta.
- Caiff jygiau dŵr eu newid deirgwaith y dydd ac mae staff ar gael i ail-lenwi jygiau dŵr rhwng yr adegau hyn.

Ardaloedd yr Ymwelwyd â Nhw, Statws yr Ymateb a'r Ymateb a Gafwyd

Ymweliad	Ysbyty Brenhinol Gwent - Adran Damweiniau ac Achosion Brys	**Dyddiad:**	1/10/2018 22/10/2018

Amgylchedd:

- Nid oedd cortyn tynnu wedi'i gysylltu yn y toiled i'r anabl.
- Roedd bin wedi rhydu yn y toiled i fenywod.
- Nid oedd cyfleusterau hylendid dwylo ar gael ym mhob man yn yr adran.

Ymateb y Bwrdd Iechyd:

- Caiff y cortyn tynnu ei ystyried yn risg gydnabyddedig a dyma'r rheswm nad oedd yn ei le yn ystod yr ymweliad. Roedd y staff yn ymwybodol bod angen mynd â chleifion i'r toiled ac aros y tu allan i'r drws rhag ofn bod angen iddynt roi cymorth. Gofynnwyd am gostau i osod system galw pad cyffwrdd yn lle'r system cortyn.
- Mae biniau newydd wedi cael eu harchebu.
- Mae cyfleusterau hylendid dwylo newydd wedi cael eu gosod yn yr ardal aros.

Adborth gan gleifion:

- Ni wnaeth y rhan fwyaf o'r cleifion gysylltu â'r adran Y Tu Allan i Oriau na Galw Iechyd Cymru cyn dod i'r adran Damweiniau ac Achosion Brys.
- Roedd cleifion yn anfodlon ar y cyfleusterau parcio yn yr ysbyty.
- Roedd diflastod yn ystod cyfnodau hir o aros yn ffactor i lawer o gleifion gyda'r nos oherwydd roedd y teledu wedi'i ddiffodd ac nid oedd unrhyw gylchgronau/papurau newydd ar gael.
- Nid oedd y cleifion yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am amseroedd aros.
- Roedd un claf yn teimlo nad oedd yr amgylchedd yn addas oherwydd y lefelau uchel o orbryder roedd yn eu profi.

Ymateb y Bwrdd Iechyd:

- Mae tîm cyfathrebu'r Bwrdd Iechyd yn hyrwyddo'r gwasanaethau Y Tu Allan i Oriau a Galw Iechyd Cymru drwy'r cyfryngau cymdeithasol. Caiff posteri eu harddangos yn yr adrannau achosion brys hefyd.
- Mae'r Bwrdd Iechyd yn ymwybodol bod nifer y lleoedd parcio i geir yn broblem. Mae mesurau rheoli traffig wedi cael eu rhoi ar waith ac mae cyfleoedd posibl ar gyfer atebion hirdymor megis 'parcio a

theithio' yn cael eu hystyried.

- Dylai'r teledu yn y brif ardal aros a'r is-ardaloedd aros fod ymlaen bob amser. Nid yw'r Bwrdd Iechyd yn siŵr p'un ai cleifion neu staff sy'n diffodd y teledu felly mae'r staff wedi cael eu hatgoffa na ddylid ei ddiffodd. Mae cylchgronau yn aml yn cael eu rhwygo a'u difrodi ac yn creu perygl baglu/llithro. Mae Wifi ar gael ym mhob man yn yr adran.
- Dylai'r cleifion gael eu hysbysu am amseroedd aros disgwyliedig wrth gyrraedd, yn ystod brysbennu a phan fydd staff yn rhoi gofal. Dylid defnyddio'r uwchseinydd bob 2 awr i rannu neges am amseroedd aros. Gofynnwyd am gostau i uwchraddio teledu gwybodaeth y cleifion i gynnwys amseroedd aros.
- Mae'r adran yn cefnogi pob claf sy'n dioddef o orbryder ac yn gweithio gyda'r claf i ddod o hyd i'r lleoliad gorau iddo o fewn cyfyngiadau'r adran.

Effeithlonrwydd:

- Nid oedd y cleifion yn cael eu trosglwyddo gan griwiau ambiwlansys o fewn 15 munud.

Ymateb y Bwrdd Iechyd:

- Dim ond pan nad oes lle yn yr ysbyty y caiff cleifion eu cadw mewn ambiwlansys. Bydd yr Uned Mân Anafiadau yn cael ei defnyddio ar gyfer hyd at 4 claf o'r adran anafiadau mawr ar adegau o uwchgyfeirio. Cytunwyd ar brotocolau i ddod â chleifion i mewn i'r adran yn nhrefn angen clinigol. Mae'r polisi uwchgyfeirio yn cael ei adolygu.

Ardaloedd yr Ymwelwyd â Nhw, Statws yr Ymateb a'r Ymateb a Gafwyd

Ymweliad	Ysbyty Brenhinol Gwent – Uned Asesu Meddygol	**Dyddiad:**	1/10/2018

Amgylchedd:

- Dim ond un math o sedd oedd ar gael sy'n golygu na fyddai'n addas ar gyfer pob math o glaf.
- Roedd y tîm ymweld yn teimlo nad oedd y toiled i bobl anabl yn addas.
- Nid oedd y pad cloi ar y cwpwrdd storio yn gweithio.

Ymateb y Bwrdd Iechyd:

- Mae seddi sefydlog wedi cael eu hadnewyddu i safon uchel yn ddiweddar i wella cysur cleifion. Mae cadeiriau pentyradwy unigol bellach ar gael hefyd a gellir defnyddio cadeiriau tebyg i rai Parker Knoll pan fydd gan glaf anghenion penodol.
- Mae gan y toiledau i bobl anabl ddrysau sy'n agor yn llydan ac sy'n addas ar gyfer pobl mewn cadair olwyn. Mae larymau cortyn tynnu newydd wedi cael eu gosod.
- Mae pad cloi newydd ar y cwpwrdd storio ac mae'n gweithio'n iawn.

Adborth gan gleifion:

- Ni roddwyd y wybodaeth ddiweddaraf i gleifion am amseroedd aros.
- Roedd rhai cleifion yn teimlo bod yr ardal aros yn 'gyfyng' ac roeddent yn cael trafferth dod o hyd i sedd.

Ymateb y Bwrdd Iechyd:

- Mae taflen wybodaeth i gleifion a diagram llif yn dangos taith cleifion ar waith. Caiff y staff eu hatgoffa i ddefnyddio'r adnoddau hyn i egluro amseroedd aros. Mae'r uned yn bwriadu prynu systemau electronig i hysbysu cleifion am amseroedd aros.
- Mae seddi priodol wedi cael eu darparu a chânt eu hychwanegu at yr ardal aros yn ôl y gofyn. Nodwyd bod rhai cleifion yn dod â llawer o berthnasau gyda nhw ac mae'r staff yn annog perthnasau i fynd i'r siop goffi wrth aros. Mae'r staff hefyd yn ceisio sicrhau mai dim ond cleifion ac ymwelwyr sy'n agored i niwed sy'n defnyddio'r seddi sydd ar gael.

Effeithlonrwydd:

- Nid oedd y cydlynydd llif cleifion ar ddyletswydd ac roedd 10 claf yn aros am wely neu'n aros i gael eu trosglwyddo i ysbyty arall.

Ardaloedd yr Ymwelwyd â Nhw, Statws yr Ymateb a'r Ymateb a Gafwyd

Ymateb y Bwrdd Iechyd:

- Ar lefel yr uned, caiff y llif cleifion ei reoli gan y nyrs â chyfrifoldeb, sef rôl sy'n cael ei llenwi 24 awr y dydd. Caiff anawsterau eu huwchgyfeirio ac mae mentrau gwella yn cael eu hasesu yn barhaus.

Ardaloedd yr Ymwelwyd â Nhw, Statws yr Ymateb a'r Ymateb a Gafwyd

Ymweliad	Ysbyty Nevill Hall – Adran Damweiniau ac Achosion Brys	**Dyddiad:**	4/10/2018 22/10/2018

Amgylchedd:

- Gwelwyd cleifion yn cael gofal yn y coridorau.
- Gwelwyd bod drws tân yn cael ei ddal ar agor.
- Roedd ffabrig rhai o'r celfi yn yr ardal aros wedi rhwygo.
- Nodwyd nad oedd safonau glendid mor uchel yn ystod ymweliadau nos ag yn ystod y dydd.

Ymateb y Bwrdd Iechyd:

- Cynhelir asesiad risg ar gyfer cleifion wrth iddynt gyrraedd a chânt ofal gan nyrs gofrestredig. Caiff cyn lleied â phosibl o gleifion eu cadw yn y coridor a chaiff cleifion eu symud unwaith y bydd lle ar gael.
- Atgoffwyd y staff na ddylid cadw drysau tân ar agor. I'w fonitro gan uwch-aelodau o staff.
- Mae costau celfi newydd wedi cael eu cyflwyno.
- Sicrhau y caiff yr amserlen lanhau ei dilyn. Dylid monitro glendid 24/7 a gellid gofyn am gymorth y tu allan i oriau gan y Goruchwyliwr Domestig os bydd angen.

Adborth gan gleifion:

- Ni nododd unrhyw gleifion eu bod wedi cysylltu â Galw Iechyd Cymru neu'r gwasanaeth y Tu Allan i Oriau cyn penderfynu dod i'r adran Damweiniau ac Achosion Brys.
- Nid oedd y cleifion yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am amseroedd aros amcangyfrifedig.

Ymateb y Bwrdd Iechyd:

- Mae cyfathrebu yn fenter drwy'r Bwrdd Iechyd cyfan gyda'r tîm cyfathrebu yn hyrwyddo Galw Iechyd Cymru a'r gwasanaeth Y Tu Allan i Oriau drwy'r cyfryngau cymdeithasol. Mae hefyd bosteri a thaflenni yn yr adran.
- Dylai'r cleifion gael eu hysbysu am amseroedd aros disgwyliedig wrth gyrraedd, yn ystod brysbennu a phan fydd staff yn rhoi gofal. Gofynnwyd am gostau i uwchraddio teledu gwybodaeth y cleifion presennol er mwyn ychwanegu amseroedd aros at y wybodaeth.

Effeithlonrwydd:

Dim argymhellion.

Ardaloedd yr Ymwelwyd â Nhw, Statws yr Ymateb a'r Ymateb a Gafwyd

Ymweliad	Ysbyty Nevill Hall – Uned Asesu Brys	**Dyddiad:**	4/10/2018

Amgylchedd:

- Nodwyd bod y cortyn tynnu mewn ystafell gawod ar y llawr.

Ymateb y Bwrdd Iechyd:

- Gosodwyd cortyn tynnu newydd a bydd y nyrs â chyfrifoldeb yn cwblhau gwiriadau dyddiol ac yn rhoi gwybod am unrhyw ddiffygion.

Adborth gan gleifion:

- Yn adborth y cleifion, nodwyd bod aros am amser hir ar drolïau yn effeithio ar lefelau cysur.

Ymateb y Bwrdd Iechyd:

- Gellir newid trolïau yn welyau os yw hynny'n glinigol angenrheidiol a chaiff cleifion eu blaenoriaethau ar gyfer gwely yn dibynnu ar eu hanghenion clinigol. Caiff amseroedd aros hir ar drolïau eu huwchgyfeirio at y tîm llif cleifion ac anogir cleifion i symud yn rheolaidd os gallant wneud hynny.

Effeithlonrwydd:

- Roedd gan yr adran bedwar claf a oedd yn aros i gael eu rhyddhau o bosibl.

Ymateb y Bwrdd Iechyd:

- Mae Cydlynydd Rhyddhau bellach wedi'i gyflogi i wella'r broses o ryddhau cleifion o'r uned.

Ardaloedd yr Ymwelwyd â Nhw, Statws yr Ymateb a'r Ymateb a Gafwyd

Ymweliad	Canolfan Iechyd Tredegar	**Dyddiad:**	15/11/2018

- Roedd cleifion yn teimlo mai dim ond un broblem roeddent yn gallu ei thrafod ym mhob apwyntiad.
- Nododd rhai cleifion ei bod yn gallu bod yn anodd cael apwyntiad brys.
- Nid oedd y rhan fwyaf o'r cleifion y siaradwyd â nhw yn ymwybodol o Fy Iechyd Ar-lein.
- Roedd rhai cleifion yn teimlo nad oedd desg/ardal y dderbynfa mor breifat ag yr hoffent.

Ymateb y Bwrdd Iechyd:

- Rheolwr y Practis i atgoffa pob meddyg teulu, gan gynnwys locymau, na ddylid cyfyngu cleifion i drafod un broblem yn unig yn ystod apwyntiad.
- Cynhelir adolygiad o'r system apwyntiadau er mwyn gwneud gwelliannau.
- Mae'r practis yn hyrwyddo Fy Iechyd Ar-lein drwy daflenni, gwybodaeth ar y wefan, posteri yn ardal y dderbynfa a slipiau meddyginiaeth amlroddadwy. Dywedir wrth y staff am drafod yr opsiwn hwn â'r cleifion pan fyddant yn dod i'r dderbynfa hefyd.
- Caiff y staff eu hatgoffa y dylid cynnig yr opsiwn o drafod problemau yn breifat i gleifion os byddai'n well ganddynt wneud hynny. Arddangosir hysbysiadau ger desg y dderbynfa.

Ardaloedd yr Ymwelwyd â Nhw, Statws yr Ymateb a'r Ymateb a Gafwyd

Ymweliad	Practis North Celynen	**Dyddiad:**	26/11/2018

- Gall paneli gwydr wrth fynedfa'r adeilad beri perygl i gleifion sydd â nam ar y golwg.
- Roedd cleifion yn teimlo mai dim ond un broblem roeddent yn gallu ei thrafod ym mhob apwyntiad.
- Nododd rhai cleifion eu bod yn cael anawsterau wrth drefnu apwyntiadau, yn enwedig apwyntiadau brys.
- Roedd rhai cleifion yn teimlo nad oedd desg/ardal y dderbynfa mor breifat ag yr hoffent.
- Nid oedd y rhan fwyaf o'r cleifion y siaradwyd â nhw yn ymwybodol o Fy Iechyd Ar-lein.

Ymateb y Bwrdd Iechyd:

- Bydd Rheolwr y Practis yn ystyried rhoi marciau ar y paneli gwydr.
- Rhoddir cyfyngiadau ar drafod mwy nag un broblem mewn apwyntiadau brys a chaiff meddygon teulu eu hatgoffa i egluro pam mae hyn yn angenrheidiol ar gyfer apwyntiadau brys, os bydd angen.
- Mae'r system frys yn gofyn i gleifion eistedd ac aros a theimlir nad oes angen gwneud newidiadau i'r system hon am fod pob claf y mae angen apwyntiad arno yn cael ei weld ar yr un diwrnod. Mae e-ymgyngoriadau hefyd wedi cael eu cyflwyno a rhagwelir y bydd hyn yn lleihau'r pwysau ar linellau ffôn y feddygfa a'i gwneud yn haws i bobl wneud apwyntiad.
- Bydd amgylchyn ffenestr ar gyfer ardal y dderbynfa yn cael ei osod.
- Mae Fy Iechyd Ar-lein yn cael ei hyrwyddo ac mae'r feddygfa wedi gweld cynnydd yn nifer y cleifion sy'n cofrestru.

Ymweliadau a gynhaliwyd rhwng mis Ionawr 2019 a mis Mawrth 2019 – *aros am ymateb i'r adroddiad*

	Disgwyl ymateb
Ysbyty Sant Cadog, Ward Adferiad	29/04/2019

Ymweliadau a gynhaliwyd rhwng mis Ionawr 2019 a mis Mawrth 2019 – *heb gyflwyno adroddiad eto*

	Dyddiad yr Ymweliad
Ymweliadau Prosiect y Gaeaf	Ionawr - Mawrth
Ysbyty Ystrad Fawr, Tŷ Cyfannol	15/03/2019
Ysbyty Llys Maindiff, Tŷ Ysgyryd	19/03/2019
Ysbyty Aneurin Bevan, Carn y Cefn	22/03/2019
Ysbyty Sirol, Talygarn	25/04/2019